# Dolur Gwddf neu Donsilitis?

## Gall y Fferyllfa hon eich helpu

- **Trafodwch eich symptomau gyda Fferyllydd a chael cyngor arbenigol.**
- **Asesiad clinigol i ganfod a yw’n haint feirol neu facteriol (gall hyn gynnwys swab gwddf os oes angen).**
- **Y driniaeth gywir ar eich cyfer chi, gan gynnwys gwrthfiotigau a chyffuriau lladd poen os oes angen.**
- **Gwasanaeth y GIG am ddim.**

## Gofynnwch i’r staff wrth y cownter am ragor o wybodaeth

### Beth yw’r Gwasanaeth Profi a Thrin Dolur Gwddf?

Mae’r Gwasanaeth Profi a Thrin Dolur Gwddf nawr yn cael ei gynnig mewn rhai Fferyllfeydd. Mae’n galluogi i’r Fferyllydd asesu eich symptomau a, lle bo’n briodol, cymryd swab o’ch gwddf. Bydd y prawf yn rhoi gwybod i’r Fferyllydd a yw’r haint yn facteriol neu’n feirol.

### A fydda i’n cael Swab Gwddf?

Bydd y Fferyllydd yn gofyn cwestiynau i chi i benderfynu a oes angen ichi gael swab gwddf a chwblhau asesiad clinigol. Ni fydd angen i bawb gael swab gwddf ac os yw eich atebion yn awgrymu mai haint feirol ydyw, efallai nad oes angen swab. Os oes angen swab, bydd angen ichi aros ychydig o funudau i gael eich canlyniadau.

### Beth sy’n digwydd os yw’r prawf yn bositif?

Mae prawf positif yn golygu ei bod yn debygol bod eich dolur gwddf wedi’i achosi gan haint bacteriol, fodd bynnag nid yw hyn bob amser yn golygu bod angen gwrthfiotigau ac efallai y gellir ei reoli gyda chyffuriau lladd poen a chyngor yn unig, yn dibynnu ar eich symptomau.

Bydd y Fferyllydd yn trafod gyda chi beth yw’r opsiynau ar gyfer rheoli eich dolur gwddf.

### Pa bryd fydda i’n well?

Fel arfer, bydd dolur gwddf (feirol neu facteriol) yn gwella ar ei ben ei hun. Bydd 40% o achosion yn gwella o fewn 3 diwrnod ac 85% o achosion yn gwella o fewn 1 wythnos heb driniaeth.

### A fydd gwrthfiotigau yn helpu fy nolur gwddf?

Mae dolur gwddf fel arfer yn cael ei achosi gan haint feirol. Os felly, ni fydd gwrthfiotigau’n eich helpu i wella’n gynt, a gallwch ddioddef sgil-effeithiau. Mae cymryd gwrthfiotigau pan nad ydych eu hangen nhw yn cynyddu’r posibilrwydd y byddwch yn datblygu ymwrthedd iddynt, sy’n golygu na fyddant yn gweithio mor dda pan fyddwch chi eu hangen. Dyna pam mae’n bwysig bod y Fferyllydd yn gwirio a oes eu hangen arnoch.

## Pwy sydd DDIM yn gallu cael y gwasanaeth hwn?

Plant o dan 6 oed.

Pobl â symptomau cyson sydd ddim wedi gwella ar ôl 1 wythnos.

Pobl gyda system imiwnedd gwannach na'r cyffredin.

Tymheredd uchel sydd ddim yn cael ei reoli gyda paracetamol neu ibuprofen.

Pobl gyda chyflyrau meddygol penodol.

Pobl sydd wedi cael dolur gwddf 5 gwaith neu fwy yn y flwyddyn ddiwethaf.

**Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i aelod o'r tîm Fferylliaeth ac fe allen nhw roi gwybod ichi a yw'n wasanaeth addas i chi. Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd â symptomau dolur gwddf yn gallu cael y gwasanaeth hwn.**

**Bydd y Fferyllydd yn eich cyfeirio at eich meddyg teulu os yw'r meini prawf uchod yn berthnasol i chi, neu os ydynt yn meddwl bod gennych gyflwr mwy difrifol.**